**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**15.02.2024 @7pm**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN, PONTRHYDFENDIGAID**

1. **MATERION PERSONOL A CHROESO’R CADEIRYDD**
   Croesawodd y Dirprwy Gadeirydd y Cynghorydd Elgan Williams bawb i'r cyfarfod.

2. **PRESENNOL**
   **Cynghorwyr Cymunedol:**
   Mel Briant
   Ieuan Davies
   Gareth Wyn Edwards
   Alun Price Jones
   Richard Jones
   Elgan Williams (Cadeirydd)
   Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) John Evans &
   Eleri Thomas (Clerc)

3. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
   Ymddiheurodd y Cynghorwyr Ifan Lloyd Davies; Angharad Jones; Non Jones a Gareth Owen am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

4. **MATERION YN YMWNEUD Â’R HEDDLU:**
   **Fe wnaeth SCCH John Evans gyflwyno’r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ddigwyddiadau’n ystod y mis diwethaf:**
   *Ymddygiad gwrthgymdeithasol / Aflonyddwch: 0
   *Lladrad: 0
   *Difrod Troseddol: roedd ffenest sied wedi ei thorri yn Llanio.  Hefyd difrod i sied yn Ysbyty Ystwyth.
   *Lladrad: 0
   *Trais / Ymosodiad: Digwyddiad yn Heol Lisburne.
   *Galwadau twyll/Sbam: Roedd yr heddlu wedi trafod â phobl wrth gynnal ymweliadau o ddrws i ddrws ac wrth gyfarfod ar y stryd.

   Roedd gan y Tîm Plismona bresenoldeb ym Mart Tregaron i drafod materion oedd yn peri pryder.
   Ystyriwyd yr arfer o yrru Beiciau Cwad yng nghyffiniau Pyllau Teifi.

   **Ymddygiad cŵn:**
   Derbyniodd y Cyngor Cymuned bryderon dwfn  yn ystod cyfarfod blaenorol ynglŷn ag ymddygiad ymosodol ci penodol o fewn y pentref.  Cytunwyd anfon llythyr at y perchnogion yn gofyn iddynt fynd i'r afael â'r pryderon hyn cyn gynted â phosibl er lles trigolion y Pentref.
   Yn yr ymateb (13.10.2023) dywedwyd bod y perchnogion yn difaru'n fawr am y digwyddiadau diweddar a oedd wedi ymwneud â'r ci achub a'u bod yn dilyn pob cam posibl i sicrhau nad oedd unrhyw ddigwyddiadau pellach.
   Roedden nhw wedi gofyn i elusen y ganolfan achub ym Mwlgaria i’w dderbyn yn ôl a chytunwyd ar hyn cyn gynted ag yr oedd yr Heddlu wedi rhyddhau'r Achos.

Diweddariad wedi dod i law: 14.02.2024.
*Mae'r ci'n dal yn ein gofal, gan fod yr opsiwn o'i ailgartrefu heb fod yn bosibl, ac yn anffodus nid oedd y ganolfan achub ym Mwlgaria yn gallu ei gymryd, felly mae'n aros gyda ni.*
*Rydym yn dilyn holl gyngor yr Heddlu ar gyfer ei ymarfer corff o ddydd i ddydd.*
*Os bydd y sefyllfa'n newid, byddwn yn eich diweddaru.*

Penderfynwyd atgoffa perchnogion cŵn o'r angen i sicrhau bod eu hanifeiliaid anwes ar dennyn ac yn gwisgo ffroen (lle bo hynny'n briodol), mewn mannau cyhoeddus, er budd diogelwch a lles trigolion yr ardal
Cytunwyd i dynnu'r sefyllfa at sylw Comisiynydd yr Heddlu Cymru a gosod hysbysiadau yn y Cambrian News a'r Barcud.

**Poster Adnabod Fferm Canabis:** Mae tyfu canabis ar raddfa fawr megis mewn cartref neu uned ddiwydiannol yn fusnes cyfrinachol sy'n beryglus, yn anghyfreithlon ac yn manteisio ar y bobl sydd fwyaf agored i niwed. Gellir rhoi gwybod am ymddygiad amheus ar 101; argyfwng 999.
Crime Stoppers: 0800 555 111. Penderfynwyd arddangos y poster o gwmpas y Pentref ac ar Lwyfannau Cymdeithasol.

**5. DATGAN DIDDORDEB PERSONOL A RHAGFARNOL**
Dim wedi'i ddatgan.

**6. CADARNHAU COFNODION Y 18fed O IONAWR 2024**
**CYNIGIWYD, EILIWYD** a **PHENDERFYNWYD** bod cofnodion 18 Ionawr 2024 yn gofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**7. MATERION YN CODI**

**7.1 Praesept 2024-25 (rhan o'r Dreth Gyngor** a hawliwyd gan Gyngor Sir Ceredigion ar ran y Cyngor Cymuned).
Roedd y Cyngor Cymuned eisoes wedi cyflwyno'r ffurflen braesept at sylw'r Cyngor Sir gan hawlio cynnydd o 5% neu £0.02 yr wythnos ar gyfer eiddo Band D (cyfartaledd). (Gwybodaeth ychwanegol: Cofnodion Ionawr 2024 ac adroddiad y gyllideb ar gael ar wefan y cyngor cymuned)
Roedd Prif Weithredwr y Cyngor Sir wedi caniatáu tan y 14.02.24 i gynnig cyfle i'r Cyngor Cymuned ailasesu'r sefyllfa. Cytunwyd i beidio adolygu'r cais gwreiddiol.

**7.2 Ardal Chwarae Pantyfedwen:** Bydd angen grantiau i dalu costau matio'r ardal chwarae. Ail-agorwyd yr ail rownd o geisiadau o Gronfa'r Cynnal y Cardi ar 1 Chwefror 2024. Fel rhan o ymrwymiad parhaus Cyngor Sir Ceredigion i gefnogi datblygiad economaidd a busnesau drwy gydol y cyfnod heriol hwn, darparwyd Cronfa Cynnal y Cardi, a ariannwyd gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig wedi'i yrru gan Ffyniant Bro.

**7.3 Diffibriliwr: Ardal Cyngor Cymuned Ystrad Fflur**
**Cyfanswm y diffibrilwyr o fewn Ffair Rhos a Bont yw 4-5 bellach** megis:

1. **Tafarn y Teifi:** Ffair Rhos (y Cyngor Cymuned wedi darparu'r bocs)
2. **Neuadd Pantyfedwen**, Y Bont: Clare Hughes yw'r Gwarchodwr swyddogol o fewn y Gylched. Roedd Clare wedi crybwyll mewn cyfarfod cynt bod angen padiau newydd. Dylent fod ar gael dan law'r Gylched. Cyflwynodd Clare anfoneb i'r Cyngor Cymuned mewn perthynas â phrynu padiau amnewid Zoll. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu â'r Gylchdaith i ddarganfod petaent ar gael, yn rhad ac am ddim.

Cysylltodd y Clerc â Pauline Bett, WAST Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol ar 14.02.2024.
Diffibrilwyr Zoll: Mae'r GIG yn darparu padiau a diffibrilwyr am ddim ond o bosibl yn rhoi'r gorau i wneud hynny'n y dyfodol.
Dylai'r gwarcheidwad gysylltu â Pauline Bett i gael padiau newydd.
Batri: bywyd, hyd at 5 mlynedd.
Byddai'n ofynnol newid padiau, a oedd â rhychwant oes o 5 mlynedd o'r dyddiad cynhyrchu i'r dyddiad dod i ben neu ar ôl pob defnydd (tua £45)
Os nad yw'n Ddiffibriliwr Zoll nid oedd Pauline Bett yn medru helpu.
Bydd yn ofynnol i'r Cyngor Cymuned dalu'r anfoneb o £55.88 gan na brynwyd y padiau dan law Pauline Bett.
Adroddwyd bod Mrs Clare Hughes wedi cysylltu â CalonHeart ond wedi'i hysbysu nad oedd padiau newydd ar gael am ddim, er gwaetha'r ffaith mai Diffibriliwr Zoll ydoedd.
Prynodd Clare y padiau ar-lein dan law Shaw Trade Global Ltd.

3. **Siop y Bentref,** Bont. Ceredig yw'r Gwarchodwr swyddogol o fewn y Gylched.
4. **Abaty Ystrad Fflur**. (y Cyngor Cymuned wedi darparu'r bocs). Y Cyngh. Ifan Davies i gysylltu â'r Pwyllgor. Bydd angen clustnodi Gwarchodwr swyddogol ar gyfer y diffibriliwr.
5. **Roedd Pennaeth Ysgol Bont wedi cytuno i'r diffibriliwr sy'n weddill gael ei leoli ar safle'r ysgol** (o bosib o fewn y maes parcio). Trefniadau'n mynd rhagddynt. Bydd angen clustnodi Gwarchodwr swyddogol ar gyfer y diffibriliwr. Cytunwyd y byddai'r Cyngh. Ieuan Davies yn cysylltu â Phennaeth yr Ysgol i symud y mater yn ei flaen.

**7.4** **Llifogydd yng nghyffiniau'r afon Teifi:** Angen tocio coed yn y cyffiniau. Bydd y Cynghorydd Richard Jones yn ymwneud.

**7.5** **Baneri: Ffair Rhos a'r ardal gyfagos:** Y Cynghorydd Ieuan Davies i ymweld â siop, a werthodd faneri addas, yng Nghaerdydd.

**7.6** **Cinio Blynyddol y Cyngor Cymuned:** Dydd Gwener 9 Chwefror 2024 yn y Red Lion, Bont. Adroddwyd bod holl yn bresennol wedi mwynhau'r digwyddiad.

**7.7** **Dwy goeden Parc Pantyfedwen** wedi'u tocio'n ddiweddar o dan gyfarwyddyd y Cynghorydd Richard Jones. 12-15 modfedd. Dwy ychwanegol i'w tocio'n ystod y dyfodol.

**7.8** **Cyfarfod rhwng cynrychiolwyr y Cyngor Sir Ceredigion a Chynghorau Tref a Chymuned:**
Roedd cwestiynau wedi'u cyflwyno (cyfeiriwch at Gofnodion 18 Ionawr 2024): Disgwylir ateb.

**7.9** **Cofnodi enwau ychwanegol ar Gofeb Ryfel Bont.** Mewn cyfathrebiad blaenorol gofynnodd Mr John Jones, Ffair Rhos a fyddai modd arysgrifio enwau ychwanegol ar y Gofeb Ryfel. Diolch i ymchwil ymroddedig Lyn Ebenezer, roedd enwau'r 3 a laddwyd mewn damwain awyren ym Mhen-Bwlch bellach yn hysbys sef:

Peilot: Swyddog Awyr GB Bainbridge
Peilot Cynorthwyol: RG Cosgrave;
Serjant Aer Ategol: W. Powell

Yn ogystal, roedd enw arall ar goll o gofeb y Rhyfel Byd Cyntaf. Diolch eto i Lyn, - Richard David Davies, Rock House. Bu'n byw ym Mhontrhydfendigaid nes iddo ymfudo gyda'i deulu i Awstralia ac ymuno â byddin y wlad honno. Bu farw yn Fromelles yn 1916.

Cysylltwyd â Paul James a John Jones i ofyn a allen nhw arysgrifio enwau'r uchod ar blac.
Bydd Paul James yn ymweld â'r safle yn fuan i sefydlu'r ffordd ymlaen.
Mr John Jones, Cerflunydd: disgwylir ateb.

**7.10 Cynigion ar gyfer torri glaswellt, yn y Pentref dros fisoedd yr haf.**
Cytunwyd i arddangos o fewn y cyffiniau:

**HYSBYSIAD CYHOEDDUS**
Gwahoddir cynigion ar gyfer y canlynol.
Torri gwair dros fisoedd yr haf

1. Glan-yr-Afon 1-2 toriad
2. 2 doriad Rhif. 1-5 Maesydderwen
3. Mynediad y pentref tua 2 fetr o'r arwydd wrth y brif fynedfa i'r pentref gan gynnwys y Glas x 5/6
4. O gwmpas Neuadd Pantyfedwen i gynnwys o fewn ffens yr Ysgol Feithrin a Parc x 5/6 toriadau

Y toriad cyntaf – ar ddiwedd Ebrill 2024.
Dyfynnu fesul toriad.
Dyddiad cau ar gyfer datganiadau o ddiddordeb: Dydd Iau 21 Mawrth 2024 @6.30pm. Anfonwch neges at y Clerc clercystradfflur@gmail.com neu i Gadeirydd y Cyngor Cymuned.

## 8. GOHEBIAETH

**8.1 MS Elin Jones: Holiadur:** Effaith cyflwyno'r cyfyngiad cyflymder 20mya o fewn ardaloedd dynodedig: gohirio tan y cyfarfod canlynol.

**8.2 Arolwg Bancio: Ben Lake AS:** Cytunwyd i gwblhau'r arolwg.

**8.3 Gohebiaeth arall: Er gwybodaeth yn unig -** roedd llawer o negeseuon e-bost wedi’u hanfon ymlaen at Gynghorwyr rhwng cyfarfodydd, yn electronig.

## 9. CYNLLUNIO

**Dim materion cynllunio.**

## 10. CYLLID

**10.1 Gwe-letya: £28.78**
**10.2 Cyflog y Clerc Ionawr 2024** £238.33 (gros)
**10.3 Costau'r Clerc £32.25** (yn cynnwys TAW)
**10.4 Diffibriliwr Padiau: £55.88** (yn cynnwys TAW)
**10.5 Cysylltodd y** Cynghorydd Gareth Owen â Banc Barclays i ddiweddaru manylion Cyfrif Banc y Cyngor Cymuned.

**11. Eitemau ar gyfer Facebook: Poster Fferm Canabis a Hysbysiad Torri Glaswellt 2024**
**Daeth y cyfarfod i ben am 8.05pm.**
**Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Dydd Iau 21 Mawrth 2024 @7pm.**
**Arwyddo / Dyddiad -------------------------------------------------------------------------------------**